

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar Fesur Arfaethedig ynghylch  
Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Hydref 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:  
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8065  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk](mailto:Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar Fesur Arfaethedig ynghylch  
Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Hydref 2010



## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 a 15.6 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

### Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org).

### Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Janet Ryder (Cadeirydd) Alun Davies	Plaid Cymru Llafur	Gogledd Cymru Canolbarth a Gorllewin Cymru
Kirsty Williams	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Brycheiniog a Sir Faesyfed
William Graham Rhodri Morgan	Y Ceidwadwyr Cymreig Llafur	Dwyrain De Cymru Gorllewin Caerdydd

# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>Rôl y Pwyllgor .....</b>	<b>6</b>
<b>Y Mesur arfaethedig.....</b>	<b>6</b>
Rhychwant a Bwriad .....	6
Cymhwysedd Deddfwriaethol .....	7
Y Cefndir Deddfwriaethol.....	8
Safbwynt y Deyrnas Unedig.....	9
Cymru .....	9
Y Darpariaethau Perthnasol yn y Mesur arfaethedig .....	10
Adran 1 .....	10
Adran 2.....	10
Adran 3.....	11
Adran 4.....	11
Adran 5.....	11
Adran 6.....	11
Adran 7.....	12
Adran 8.....	12
Adrannau 9, 10, 11 a 12.....	12
<b>Materion yn codi o'r dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>13</b>
Cyffredinol .....	13
Adran 6 - Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc.....	14
Adran 7 - Cymhwyso i bobl ifanc 18-24 oed .....	15
Yr Egwyddor Gyffredinol.....	15
Defnyddio'r Weithdrefn "Uwch-gadarnhaol" .....	16
Adran 8 - Dim Gweithdrefn Cynulliad.....	17
<b>Tystion.....</b>	<b>19</b>
<b>Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>20</b>
<b>Atodiad .....</b>	<b>21</b>

Testun llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol at y Dirprwy Weinidog dros Blant .....	21
Ymateb y Dirprwy Weinidog dyddiedig 3 Awst.....	23

## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cydfynd â'r argymhellion:

**Recommendation 1.** Rydym yn argymhell bod rhaid i unrhyw gynigion a gyhoeddir er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd o dan adran 6(4) gael eu gosod, yr un pryd, gerbron y Cynulliad. **tudalen 15**

**Recommendation 2.** Rydym yn argymhell y dylai unrhyw orchmynion a wneir o dan adran 7(6) a (7) gael eu gwneud drwy weithdrefn uwch-gadarnhaol sy'n caniatáu amser i Bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill ystyried y cynigion yn llawn ac argymhell gwelliannau, cyn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r gorchmynion terfynol. **tudalen 17**

**Recommendation 3.** Rydym yn argymhell y dylai unrhyw orchmyn a wneir o dan adran 8(5), 8(7) neu 8(8) ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol. **tudalen 18**

## Rôl y Pwyllgor

---

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad arnynt:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau o ran rhinweddau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

## Y Mesur arfaethedig

---

2. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyflwyno gan Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant ar 14 Mehefin 2010, a'i gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth 5 er mwyn i'r pwyllgor hwnnw gyflwyno adroddiad erbyn 22 Hydref 2010.

### Rhychwant a Bwriad

3. Mae diben y Mesur arfaethedig wedi'i ddisgrifio yn y Memorandwm Esboniadol<sup>1</sup> fel a ganlyn:-

"1.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<sup>2</sup> (y Confensiwn) a'i Brotoolau Dewisol,<sup>3,4</sup> wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer

---

<sup>1</sup> Mae copi ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-rightsofchildren.htm>

<sup>2</sup> [Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn](#)

<sup>3</sup> [Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog](#)

<sup>4</sup> [Protocolau Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornogroffi plant](#)



swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. At ddibenion y Confensiwn, ystyr "plant" yw'r rheini sy'n iau na 18 oed.

1.2 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch:

- paratoi cynllun plant;
- adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol; ac
- ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi'n 18 oed, ond heb droi'n 25 oed."

## **Cymhwysedd Deddfwriaethol**

4. Mae'r pwerau i wneud y Mesur arfaethedig wedi'u cynnwys ym Mater 15.6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>5</sup> -

### **Mater 15.6**

Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc.

*Mae'r mater hwn yn berthnasol i gydweithrediad gan, a threfniadau a wneir gan-*

*(a) awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r meysydd yn y rhan hon;*

*(b) awdurdodau heddlu a phrif swyddogion yr heddlu ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru;*

*(c) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;*

*(ch) byrddau prawf lleol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;*

*(d) yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 2 a 3 o*

---

<sup>5</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32](#)

*Ddeddf Rheoli Tramgwyddwyr 2007, neu unrhyw ddarparwydd gwasanaethau prawf o dan drefniadau a wnaed o dan adran 3(2) o'r Ddeddf honno;*

*(dd) timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;*

*(e) llywodraethwyr carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel sydd wedi'u contractio allan neu rannau o sefydliadau o'r fath, a'r rhannau hynny wedi'u contractio allan, eu cyfarwyddwyr);*

*(f) personau ac eithrio awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llesiant plant neu bersonau ifanc.*

## **Y Cefndir Deddfwriaethol**

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dyma'r Mesur cyntaf yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig i'w roi ar waith sy'n cael ei wneud ar lefel ddatganoledig ac nid ar sail y Deyrnas Unedig gyfan.
6. O ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn -
  - cafodd ei gadarnhau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym 1991;
  - daeth i rym yn y Deyrnas Unedig ym mis Ionawr 1992;
  - mae'n gonfensiwn anghorfforedig ac nid yw'n rhan o'n cyfraith ddomestig hyd oni fydd wedi'i ymgorffori'n uniongyrchol yn ein cyfraith;
  - ym mis Rhagfyr 1991 cytunodd y Deyrnas Unedig i gael ei rhwymo gan y Confensiwn fel rhan o'r gyfraith ryngwladol, ac ymgymerodd y Deyrnas Unedig hefyd â'r Protocolau Dewisol;
  - yn 2002 cymhwysodd Llywodraeth Cymru y saith nod craidd at ei holl waith gyda phlant a phobl ifanc hyd at 25 oed;
  - ar 14 Ionawr 2004 cafodd y Confensiwn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Aelodau'r Cynulliad fel y sail ar gyfer gwneud polisiau ynglŷn â phlant.

- ym mis Gorffennaf 2009 nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu ystyried Mesur i “ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan o'r gyfraith” yng Nghymru.

### ***Safbwynt y Deyrnas Unedig***

7. Mae'r Confensiwn yn gytuniad sy'n gyfreithiol gyfrwymol ar y Deyrnas Unedig o dan y gyfraith ryngwladol. Gan hynny, mae'r Confensiwn eisoes yn gosod rhwymedigaethau cyfrwymol ar Weinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r Confensiwn wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed.
8. Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am gydlynu'r Confensiwn yn gyffredinol, ac mae'n cydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y Confensiwn yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth San Steffan yn ogystal â Chymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn ar y cynnydd sydd wedi'i wneud.
9. Yn y Deyrnas Unedig, mae'r gyfraith ddomestig yn cynnwys statudau a'r gyfraith cwstwm neu'r gyfraith gyffredin. Yn gyffredinol, nid yw cyfraith y Deyrnas Unedig yn ymgorffori cytuniadau rhyngwladol fel y Confensiwn yn uniongyrchol yn y gyfraith ddomestig. Nid yw cytuniadau o'r fath, gan gynnwys y Confensiwn, yn rhan o'r gyfraith ddomestig oni bai eu bod wedi'u hymgorffori gan Ddeddf Seneddol. Er enghraifft, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith Cymru a Lloegr.
10. At ei gilydd, mae ymdrechion i roi'r Confensiwn ar waith yn y Deyrnas Unedig wedi'u gwneud drwy amryw o fentrau deddfwriaeth a mentrau polisi yng Nghymru gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn Lloegr gan Lywodraeth San Steffan.

### ***Cymru***

11. Ar hyn o bryd yng Nghymru, does dim cyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru na Phrif Weinidog Cymru gymryd y Confensiwn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

12. Os caiff y Mesur arfaethedig ei gymeradwyo:-

(i) Cymru fydd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i integreiddio'r Confensiwn yn y gyfraith; a

(ii) bydd yr hawliau a'r dyletswyddau yn y Confensiwn sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Mesur arfaethedig yn dod yn rhan bwysig o'r hyn y bydd angen i Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru feddwl amdano wrth wneud penderfyniadau strategol eu natur am sut i arfer unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.

### **Y Darpariaethau Perthnasol yn y Mesur arfaethedig**

13. Ymdrinnir yn fanwl â'r pwerau i wneud y ddeddfwriaeth ddirprwyedig ym mharagraffau 5.1-5.16 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn hunangynhwysol gan fod yr holl ddarpariaethau perthnasol i'w gweld yn y Mesur arfaethedig.

#### ***Adran 1***

14. Craidd y Mesur arfaethedig yw darpariaeth yn adran 1 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn wrth wneud penderfyniadau strategol eu natur am sut i arfer unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. Cyfeirir at y ddyletswydd hon fel "y brif ddyletswydd" yn y Nodiadau Esboniadol.

#### ***Adran 2***

15. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Cynllun Plant, mae'n gwneud darpariaeth ynghylch materion eraill a all gael eu cynnwys mewn Cynllun Plant, a hefyd ynghylch diwygio'r Cynllun neu ei ail-wneud.

16. Rhaid i Gynllun Plant:-

(i) nodi'r meini prawf ar gyfer nodi penderfyniadau sy'n benderfyniadau strategol eu natur, a

(ii) nodi'r trefniadau y bydd angen i Weinidogion Cymru eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 1 i roi sylw dyledus i'r Confensiwn.

### ***Adran 3***

17. Mae adran 3 yn cynnwys darpariaethau ynghylch paratoi a chyhoeddi'r Cynllun Plant gan nodi'r dogfennau y mae angen i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth baratoi'r Cynllun, ei ail-wneud neu ei ddiwygio. Mae'r adran hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddogfennau eraill y maent o'r farn eu bod yn berthnasol wrth iddynt baratoi'r Cynllun Plant, ei ail-wneud neu ei ddiwygio. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phobl benodol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru ac unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn briodol, cyn gwneud y Cynllun Plant, ei ail-wneud neu ei ddiwygio. Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r Cynllun Plant cyntaf gerbron y Cynulliad ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

### ***Adran 4***

18. Mae Adran 4 yn cynnwys y gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ynghylch cydymffurfio â'u prif ddyletswydd. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad cyntaf gerbron y Cynulliad ar 31 Ionawr 2013 neu cyn hynny. Ar ôl hynny, rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd.

### ***Adran 5***

19. Mae'r adran yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i 'hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn' ac i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol i sicrhau hynny.

### ***Adran 6***

20. Mae hon yn nodi pŵer Gweinidogion Cymru i **ddiwygio deddfiadau ac offerynnau uchelfreiniol drwy orchymyn**. Mae'r pŵer i ddiwygio'n arferadwy "at ddibenion rhoi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau", yn sgil adroddiad o dan adran 4 i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r diwygiadau fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a rhaid ymgynghori cyn i'r gorchymyn gael ei wneud. Byddai gorchymyn o'r fath yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## ***Adran 7***

21. Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a allai Rhan 1 o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol fod yn berthnasol i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun plant (pan gaiff ei wneud am y tro cyntaf) gynnwys datganiad ar gynigion Gweinidogion Cymru i ymgynghori ar y mater hwn. Mae'r Mesur arfaethedig yn caniatáu wedyn i unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur gael ei chymhwyso at bobl ifanc hyd at 25 oed **drwy orchymyn**. Rhaid i orchymyn o'r fath gael ei gyhoeddi ar ffurf drafft a rhaid ymgynghori yn ei gylch. Byddai gorchymyn o'r fath hefyd yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## ***Adran 8***

22. Mae Adran 8 yn esbonio ystyr "Confensiwn" a "Protocolau" yn y Mesur arfaethedig, sydd wedi'i nodi yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig. Yna ceir pŵer (os bydd y Deyrnas Unedig wedi cytuno ar newidiadau iddynt) a dyletswydd (os yw'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau newidiadau) i **wneud diwygiadau i'r Mesur arfaethedig drwy orchymyn** "sydd yn briodol yn eu barn hwy i adlewyrchu" y newidiadau hynny. Nid yw'r pŵer wedi'i gyfyngu i'r testunau sydd wedi'u nodi yn yr Atodlen, ond fe allai gael ei ddefnyddio hefyd i ddiwygio'r Mesur arfaethedig yn gyffredinol. Er y byddai'r gorchymyn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad, ni fyddai'r un weithdrefn yn gymwys. Mae hynny'n golygu na fyddai angen i'r Cynulliad gytuno i'r gorchymyn ac na allai Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cynnig i'w ddiddymu.

23. Mae Adrannau 14, 15 ac 16 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys darpariaethau tebyg mewn perthynas â phrotocolau i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond mae deddfwriaeth o dan y pwerau hynny'n dibynnu ar weithdrefn seneddol gadarnhaol ar gyfer gorchymyn dynodi o dan adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf honno.

## ***Adrannau 9, 10, 11 a 12***

24. Mae Adran 9 yn nodi diffiniadau o'r termau sydd wedi'u defnyddio yn y Mesur arfaethedig.

25. Mae Adran 10 yn cynnwys y darpariaethau ynghylch gwneud gorchymynion. Mae'n pennu y byddai gorchymynion o dan adrannau 6 a

7 yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, ond y byddai gorchmynion o dan adran 8 yn cael ei gosod a dim byd arall.

26. Mae Adran 11 yn cynnwys pŵer i gychwyn adran 1 o'r Mesur arfaethedig drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, a deuai gweddill yr adrannau i rym ar ddiwedd cyfnod o ddau fis o'r diwrnod y câi'r Mesur arfaethedig y gymeradwyaeth frenhinol.

27. Mae Adran 12 yn nodi enw byr y Mesur arfaethedig.

## **Materion yn codi o'r dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor**

---

28. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) ar 1 Gorffennaf 2010 gan gymryd tystiolaeth ar bapur ac ar lafar gan y Dirprwy Weinidog dros Blant, Huw Lewis AC, a'i swyddogion.

### **Cyffredinol**

29. Mae gan y Pwyllgor bryderon am rai o'r darpariaethau ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig. Er hynny, nid ydym yn credu bod y rhain ar eu pen eu hunain yn ddigon o reswm i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â chytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

30. Edrych ar faterion is-ddeddfwriaeth yw'n prif rôl ni wrth inni edrych ar y Mesur arfaethedig, ond mae gennyn ni bryderon ehangach hefyd am y Mesur arfaethedig penodol hwn. Ni fyddai'n briodol inni gyflwyno argymhellion ar y pwyntiau hyn, sy'n perthyn yn briodol i gylch gorchwyl Pwyllgor Deddfwriaeth 5. Er hynny, yr ydyn ni'n dymuno cofnodi'r pryderon hyn.

31. Wrth wneud hyn, rydyn ni am egluro ein bod yn gryf o blaid yr egwyddor y dylai penderfyniadau'r Llywodraeth gymryd cynnwys y Confensiwn i ystyriaeth, a dod o dan ddylanwad y cynnwys hwnnw. Ond dydyn ni ddim wedi'n hargyhoeddi bod y Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i gyflwyno, yn llwyddo i wireddu'r egwyddor honno yn y modd mwyaf effeithiol.

32. Yn benodol, rydym yn bryderus nad yw'r Mesur arfaethedig, o ran y ddyletswydd i Weinidogion Cymru "*roi sylw dyledus*" i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau "*strategol eu natur*" yn rhoi dim diffiniad

nac esboniad o beth yw penderfyniad o'r fath. Rydym yn credu y gallai hyn fod yn rhy niwlog i gael unrhyw effaith ystyriol ac y dylai'r Llywodraeth ystyried cryfhau'r ddyletswydd. I wneud hyn, efallai yr hoffai'r Dirprwy Weinidog ystyried naill ai egluro ystyr "penderfyniadau strategol eu natur" ar wyneb y Mesur arfaethedig, neu gymhwyso'r ddyletswydd i "roi sylw dyledus" i'r Confensiwn at bob swyddogaeth sy'n cael ei harfer gan Weinidogion Cymru.

33. Rydyn ni hefyd yn ategu'r farn ei bod yn bur synhwyrol, mewn llawer o feysydd polisi cyhoeddus, ystyried anghenion plant ac oedolion ifanc ochr yn ochr â'i gilydd. Er hynny, rydym yn bell o fod wedi'n hargyhoeddi y gall neu y dylai'r egwyddor hon gael ei chymhwyso drwy ddefnyddio hawliau sydd wedi'u bwriadu'n unswydd i fod yn gymwys i blant hyd at 18 oed yn hytrach na phobl ifanc nad ydynt yn 25, fel y rhagwelir yn Adran 7 o'r Mesur arfaethedig.

34. Rydym yn gwneud argymhellion penodol ynghylch y darpariaethau is-ddeddfwriaeth isod.

#### **Adran 6 - Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc**

35. Mae Adran 6 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio Deddfau Seneddol y Deyrnas Unedig, Mesurau Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth. Gallant wneud hynny os daw adroddiad (wedi'i baratoi gan Weinidogion Cymru) o dan adran 4 o'r Mesur arfaethedig i'r casgliad y byddai'n ddymunol gwneud hynny "*at ddibenion rhoi effaith bellach neu effaith well i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn [y] Confensiwn a'r Protocolau.*"

36. Yr unig gyfyngiad ar y pŵer hwn, a arferir dwy weithdrefn gadarnhaol, yw'r angen i Weinidogion Cymru:

- gyflwyno adroddiad ar eu casgliad y byddai newid yn ddymunol;
- ymgynghori ar eu cynigion fel y bo'n briodol yn eu barn hwy; a
- sicrhau bod y newid arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar y pryd.

37. Dyma bwerau eang iawn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (ac eilaidd). Er y bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, rydyn ni'n credu y dylid cael rhagor o ddulliau diogelu ynglŷn â defnyddio'r pwerau hyn. Yn benodol, credwn y dylai unrhyw gynigion a gyhoeddir er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd o dan adran 6(4) gael eu gosod, yr un pryd,



gerbron y Cynulliad i ganiatáu digon o amser i Aelodau a Phwyllgorau'r Cynulliad roi ystyriaeth briodol iddynt.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod rhaid i unrhyw gynigion a gyhoeddir er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd o dan adran 6(4) gael eu gosod, yr un pryd, gerbron y Cynulliad.**

## **Adran 7 - Cymhwyso i bobl ifanc 18-24 oed**

### ***Yr Egwyddor Gyffredinol***

38. Mae Adran 7 o'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a yw'r Confensiwn (a'r Protocolau Dewisol) yn berthnasol i bobl ifanc 18 i 24 ac i ba raddau y mae'n berthnasol iddynt, ac i ba raddau y gallai darpariaethau'r Mesur arfaethedig gael eu cymhwyso at y grŵp hwn o bobl ifanc. Mae Adran 7 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, gymhwyso unrhyw rai eraill o ddarpariaethau'r Mesur at bobl ifanc a gwneud unrhyw ddarpariaeth arall y maent yn credu ei bod yn briodol er mwyn cymhwyso gofynion y Confensiwn at bobl ifanc.

39. Nodwyd yn gynharach ein pryderon ynghylch cymhwyso'r Confensiwn, sydd wedi'i anelu at blant, at oedolion ifanc. Yn hyn o beth, mae'n werth nodi barn y Comisiynydd Plant yn ei ymateb yntau i ymgynghoriad Pwyllgor Deddfwriaeth 5 ar y Mesur arfaethedig:

"I believe it is inappropriate to apply an international convention for children under the age of 18 to those age 18-24. It must be reiterated that the UNCRC was developed to apply to those aged under 18. The introduction to the Convention states clearly that:

*"in the Universal Declaration of Human Rights, the United Nations has proclaimed that childhood is entitled to special care and assistance and that as indicated in the Declaration of the Rights of the Child, "the child, by reason of his physical and mental immaturity, needs special safeguards and care, including appropriate legal protection, before as well as after birth."*

"Whilst the policy intention of the Welsh Government has been to extend the principles of the UNCRC to 18-24 year olds, I do

not support the possible extension of the Measure to the 18-24 age range. This proposal would arguably in my view have the effect, in relation to the Welsh Minister's exercise of functions, of extending the impact of UNCRC beyond the scope for which it was intended."

40. Mae Grŵp Monitro'r Confensiwn yng Nghymru yn gwneud pwynt tebyg yn eu hymateb hwy i'r ymgynghoriad:

"The inclusion of this section in the Measure (and the explanation of it in the original consultation document) in our view, creates confusion and perpetuates misunderstandings about children's rights and of the meaning and purpose of the UNCRC. Ministers should continue to consider the ways in which young adults over 18 can access their rights more fully, by recognising the vulnerable position many young adults are in and building on the legislation, strategic approaches and policies already put in place."

41. Cydnabyddwn fod gan bobl eraill<sup>6</sup> safbwyntiau gwahanol ond credwn y dylid rhoi pwysau arbennig i'r safbwyntiau uchod.

42. Nid yw ystyried y "polisi" y tu ôl i'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn rhan o'n cylch gorchwyl ni mewn gwirionedd. Ond, mae'r safbwyntiau hyn yn awgrymu i ni fod y darpariaethau ar is-ddeddfwriaeth yn adran 7(6) a 7(7) yn ddadleuol, o leiaf, ac fe fyddent yn sicr yn ddatblygiad polisi arwyddocaol iawn. Gan hynny, rydym yn credu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael craffu arnynt i raddau ehangach cyn iddynt gael eu cyflwyno.

### ***Defnyddio'r Weithdrefn "Uwch-gadarnhaol"***

43. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog i awgrymu y gallai "gweithdrefn uwch-gadarnhaol" fod yn briodol yn yr achos hwn. Mae copi o lythyr y Cadeirydd ac o ymateb y Dirprwy Weinidog wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

44. Mae'r Dirprwy Weinidog yn dadlau yn ei ymateb fod gallu'r Cynulliad i wrthod y cynllun plant sydd i'w wneud o dan adran 2 o'r

---

<sup>6</sup> Ymatebion Ymgynghori - <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-rightsofchildren/consultation-res-log.htm>

Mesur arfaethedig ac unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 7 yn caniatáu digon o gyfle i graffu ar orchmynion. Rydym yn anghytuno.

45. Mae natur ddadleuol y newidiadau arfaethedig, newydd-deb yr hyn sy'n cael ei gynnig a'r pryder o ran egwyddor ynglŷn ag ymestyn y Mesur arfaethedig i bobl ifanc 18 i 24 oed yn awgrymu i ni y dylai unrhyw orchmynion a wneid o dan adran 7 gael eu gwneud drwy weithdrefn uwch-gadarnhaol o leiaf. Byddai hynny nid yn unig yn sicrhau y gallai'r Cynulliad drafod a chymeradwyo neu wrthod y gorchymyn ond hefyd yn caniatáu digon o amser i Bwyllgorau'r Cynulliad gymryd tystiolaeth gan Weinidogion Cymru ac eraill ac awgrymu gwelliannau posibl i unrhyw orchymyn a gynigid.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw orchmynion a wneir o dan adran 7(6) a (7) gael eu gwneud drwy weithdrefn uwch-gadarnhaol sy'n caniatáu amser i Bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill ystyried y cynigion yn llawn ac argymhell gwelliannau, cyn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r gorchmynion terfynol.**

#### **Adran 8 – Dim Gweithdrefn Cynulliad**

46. Bu Adran 8 o'r Mesur arfaethedig hefyd yn destun gohebiaeth yn ôl ac ymlaen rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwy Weinidog, a nodwyd yn gynharach ac sydd wedi'i chynnwys mewn atodiad i'r adroddiad hwn.

47. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Gweinidogion (os yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno ar newidiadau yn y Confensiwn neu'r Protocolau) a dyletswydd (os yw'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau newidiadau) i wneud diwygiadau i'r Mesur "sydd yn briodol yn eu barn hwy i adlewyrchu" y newidiadau hynny. Nid yw'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio testunau'r Confensiwn neu'r Protocolau sydd wedi'u nodi yn yr Atodlen, ond gellid ei ddefnyddio i ddiwygio'r Mesur arfaethedig yn gyffredinol.

48. Rydym yn derbyn bod angen sicrhau bod y ddyletswydd i roi sylw dyladwy yn cyfeirio at y Confensiwn fel y mae'n cael ei ddiwygio o dro i dro. Gan hynny, mae angen dull i sicrhau bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydym yn gofidio bod y pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn mynd y tu hwnt i'r angen syml i ddiweddarau'r Confensiwn ond yn cynnwys hefyd y gallu i ddiwygio unrhyw ran arall o'r Mesur arfaethedig. Rydym yn credu y

byddai darpariaeth “fel y’i diwygir o dro i dro” yn peri llai o bryder ac yn haws ei deall.

49. Rhywbeth sy’n peri mwy o bryder yw diffyg gweithdrefn Cynulliad ar gyfer gorchmynion o dan yr adran hon. Mae hyn yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn cael mynd ati’n syml i wneud y newidiadau heb y dull diogelu arferol, wrth i deddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, sef gwaith craffu o dan y weithdrefn gadarnhaol. Pryder gwaeth byth yw nad oes yna fwriad hyd yn oed i ddefnyddio’r mesur llai o waith craffu sy’n bosibl drwy gyfrwng y weithdrefn negyddol.

